**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
7 Tachwedd 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”) yn darparu ar gyfer gwneud rhai categorïau o bersonau o dramor yn gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a/neu gymorth tai (cymorth oherwydd digartrefedd, yn y bôn).

Bwriedir i Reoliadau 2014 gael eu diwygio gan Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 (“y Rheoliadau diwygio”) i estyn cymhwystra i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol i bobl sy'n wladolion Prydeinig, personau eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu nad ydynt yn cael eu trin felly), ac unrhyw un â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus sy'n cyrraedd y DU o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus, oherwydd ymosodiad terfysgol Hamas yn Israel ar 7 Hydref, a gwrthdaro cynyddol dilynol.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 30 Hydref 2023 i ofyn am gymorth y Pwyllgor i gyflymu'r gwaith o graffu ar y Rheoliadau i alluogi dadl gynnar, oherwydd y brys i'w gwneud.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae adran 160A(3) a (5) o Ddeddf Tai 1996 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi fel bod categorïau penodol o bersonau o dramor yn gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai. Gwneir darpariaeth debyg yn adran 61 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a pharagraff 1(2) a (4) o Atodlen 2 i'r ddeddf honno, mewn perthynas â gallu Gweinidogion Cymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol) i wneud rheoliadau mewn perthynas â chymhwystra neu anghymhwystra categorïau penodol o bersonau i gael cymorth tai. Y Rheoliadau 2014 sydd i'w diwygio yw rheoliadau 3, 4, 5 a 6.

Mae'r Rheoliadau diwygio yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol drafft, fel sy'n ofynnol o dan adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mewn perthynas â diwygiadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 160A o Ddeddf Tai 1996 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu y gellir cyfuno rheoliadau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol.

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

Mewn ymateb i'r gwrthdaro cynyddol yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus, yn dilyn ymosodiadau terfysgol Hamas ar 7 Hydref 2023, mae Llywodraeth y DU yn paratoi ar gyfer gweld pobl yn gadael ac yn dychwelyd o bosibl o'r tiriogaethau yr effeithir arnynt i'r DU.

Ni wyddom faint o bobl fydd yn dychwelyd i'r DU yn y pen draw. Ac ni wyddom ychwaith faint o'r bobl hyn a ddaw i Gymru. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso'r broses ddychwelyd i'r rhai sy'n dod o Israel, y Lan Orllewiniol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i sicrhau eu bod yn gallu hawlio budd-daliadau, tai cymdeithasol a chymorth tai hyd yn oed os nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU. Bydd yn gwneud hynny drwy ddatgymhwyso ei rheolau ynglŷn â'r Prawf Preswylfa Fel Arfer.

Nid yw'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datgymhwyso'r prawf preswylfa fel arfer i bobl sy'n cyrraedd y DU o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus wedi'i hadlewyrchu yn y dosbarthiadau rhagnodedig presennol o bersonau sy'n gymwys i gael tai a chymorth tai o dan Reoliadau 2014. Bydd y bobl hynny sy'n dychwelyd i Gymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus (o ran y rhai nad yw'r prawf preswylfa fel arfer wedi ei ddatgymhwyso) yn anghymwys wedyn i wneud cais am dai cymdeithasol a chymorth tai oni wneir diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2014, gan sicrhau cysondeb rhwng cyfraith budd-daliadau/lles a chyfraith tai Cymru.

Mae'r Rheoliadau diwygio yn diwygio Rheoliadau 2014, sy'n pennu pa bobl o dramor sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996, neu gymorth tai o dan Atodlen 2 i Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Bydd y Rheoliadau diwygio yn ychwanegu at Reoliadau 2014 Dosbarth newydd o bersonau o dramor ("Dosbarth P") sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo a fydd yn gymwys i gael tai a chymorth tai ac yn eu heithrio rhag y prawf preswylfa fel arfer. Y personau yn y Dosbarth newydd hwn yw'r rhai (a) a oedd yn preswylio yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus yn union cyn 7fed Hydref 2023, (b) a adawodd Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus mewn cysylltiad â'r brwydro a waethygodd yn sydyn ar 7fed Hydref 2023 yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus, a (c) sydd wedi cael caniatâd i aros yn unol â'r rheolau mewnfudo, a (d) nad yw'n ofynnol eu cynorthwyo heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Mae'r Rheoliadau diwygio hefyd yn gwneud y personau hynny nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, ac sydd wedi gadael Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus mewn cysylltiad ag ymosodiadau terfysgol Hamas ar 7 Hydref 2023, neu y gwrthdaro cynyddol yn dilyn yr ymosodiad hwnnw, ac a oedd yn preswylio yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus yn

union cyn 7fed Hydref 2023, yn gymwys i gael tai a chymorth tai. Fel arfer, byddai angen i bersonau yn y grŵp hwn, y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn wladolion Prydeinig, hefyd aros i fod yn gymwys gan na fyddent yn bodloni'r prawf preswylfa fel arfer yn syth. Bydd y diwygiadau yn eithrio'r cyfryw bersonau (nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo) rhag y prawf preswylfa fel arfer ac o ganlyniad byddant hwythau hefyd yn gymwys ar unwaith i wneud cais am lety tai neu gymorth tai.

Ar 27 Hydref 2023, daeth Llywodraeth y DU â Rheoliadau i rym i ddatgymhwyso'r prawf preswylio arferol (HRT) ar gyfer pobl o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus, gan ganiatáu iddynt wneud cais am gymorth tai a digartrefedd ar unwaith. Felly, mae'r dull gweithredu yng Nghymru yn gyson â Rheoliadau Llywodraeth y DU (sy'n cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Yn ogystal â'r angen i gysoni rheolau tai yng Nghymru er mwyn datgymhwyso'r prawf preswylfa fel arfer drwy Gymru a Lloegr am resymau ymarferol, mae cyfiawnhad hefyd; yn enwedig i'r rhai sydd â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus; dros estyn cymhwystra i dai a chymorth tai yng Nghymru.

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang ac fel cenedl noddfa, drwy ei Strategaeth Ryngwladol. Gallai'r brwydro yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus fod yn niweidiol i hawliau dynol a rhyddidau pobl sy'n dychwelyd i'r DU pe na bai Cymru yn gwneud yr un ymrwymiad â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill. Mae ymrwymiad cadarn Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn cryfhau'r cyfiawnhad dros y cynnig hwn, am y byddai unrhyw rwystr sy'n atal cymorth rhag cael ei roi i bobl sy'n ceisio tai neu gymorth tai yn mynd yn groes i'r polisi cyfredol ynglŷn â digartrefedd.

## 5. Ymgynghori

Gan fod y sefyllfa wedi digwydd mor sydyn, a'r angen ymarferol i wneud yn siwr y gall y rhai sydd wedi cyrraedd neu sy'n cyrraedd Cymru gael tai neu gymorth tai, rydym o'r farn y byddai'n anfanteisiol cynnal ymgynghoriad. Gan y bydd y Rheoliadau diwygio hefyd yn sicrhau canlyniadau sy'n ymwneud â pholisi (mewnfudo a lles) y Llywodraeth y DU a ddargedwir, ni fyddai modd cynnnal ymgynghoriad ystyrlon ar ddulliau gweithredu amgen, gan mai effaith y Rheoliadau diwygio yw sicrhau cysondeb rhwng cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo/lles.

Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn cael gwybod am y newid deddfwriaethol, ynghyd ag atodiad i'r Cod Cyfarwyddyd, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o sut i gymhwyso'r ddeddfwriaeth newydd.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Opsiynau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dau opsiwn i ddiwallu anghenion pobl sy'n dod i Gymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer – Cadw at y sefyllfa fel y mae, sy'n golygu y bydd gwladolion Prydeinig, personau eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu nad ydynt yn cael eu trin felly), ac unrhyw un sydd wedi cael caniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus yn ymdopi heb hawl i dai na chymorth tai.
Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth (yr opsiwn a ffefrir).

## 7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Dyma'r opsiwn llinell sylfaen ac fel y cyfryw nid oes unrhyw gostau na manteision uniongyrchol ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth y DU yn fodlon datgymhwyso'r prawf preswylfa fel arfer yn achos pobl sy'n dod i Gymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus, gan ganiatáu iddynt gael budd-daliadau, gellid cael bod yr opsiwn polisi hwn yn annheg o ystyried y ffordd y caiff ei gymhwyso mewn rhannau eraill o'r DU.

Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth.

Mae'r Rheoliadau diwygio wedi cael eu gwneud heb gyfyngiad ar nifer y bobl a all ddod i'r DU ac nad oes ganddynt ddyddiad gorffen. Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod 20,000 – 50,000 o Brydeinwyr o fewn ardal Israel yn unig. Er mwyn i'r gwladolion Prydeinig hynny sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu gael y newyddion diweddaraf ac aros mewn cysylltiad â chynlluniau gwacáu posibl ac ati o'r 31 Hydref mae 210 o bobl wedi cofrestru ar draws yr holl diriogaethau yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae gwybodaeth ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac mae'n debygol y bydd effaith ar gyfathrebu â'r rhai yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt, gan achosi oedi ac anghysondeb y data cywir sydd ar gael. Felly, mae'n anodd darparu rhagolwg cywir o'r bobl a fydd o bosibl yn cyrraedd y DU neu Gymru ar hyn o bryd.

Mae'r manylion ynghylch diaspora Israelaidd, Palesteinaidd a Libaneaidd o fewn y DU yn gyfyngedig, ond credir ei fod yn gymharol fach. Nid oes gennym ddata union, yn enwedig ar lefel Cymru. Mae data Cyfrifiad 2021[1] yn awgrymu

[1] https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/intern

bod 26,000 o bobl yn byw y DU a gafodd eu geni yn Israel, ac er nad yw data lefel Cymru yn hysbys, roedd 25,000 o'r rheiny yn byw yn Lloegr yn 2021. Yn yr un modd o'r 14,000 o bobl yn y DU a anwyd yn Libanus, roedd 13,000 o'r rheiny yn byw yn Lloegr. O'r 4,000 o bobl a anwyd yn y Lan Orllewinol a Gaza, mae pob un o'r 4,000 yn byw yn Lloegr. Er ein bod yn gweithio gyda dadansoddiad cyfyngedig o ble yn union y maent yn byw, deallir mai'r cymunedau mwyaf yn y DU o bobl a anwyd yn unrhyw un o'r tiriogaethau yr effeithir arnynt, yw Llundain, Canolbarth Lloegr a Gogledd Lloegr, ac o ganlyniad yn bennaf y tu allan i Gymru.

At ddiben y Rheoliadau, ac oherwydd y cyfyngiadau o ran y data sydd ar gael, caiff yr amcangyfrif o 20,000 o bobl a allai gyrraedd yn y DU ei dddefnyddio i asesu pwy fydd angen tai neu gymorth tai yng Nghymru, o ganlyniad i'r newidiadau a gynigir uchod. Mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif sylweddol, fodd bynnag, mae hon yn sefyllfa hynod gymhleth a sensitif sy'n dal i ddatblygu, felly defnyddir amcangyfrif ceidwadol i helpu i baratoi pe bai'r sefyllfa'n newid yn gyflym. Nodir fodd bynnag y gallai fod cymaint â 50,000 pe bai pob gwladolyn Prydeinig a amcangyfrifwyd yn dychwelyd i'r DU o Israel yn unig. Mae gwybodaeth fanwl am niferoedd Gwladolion Prydain yn Nhiriogaethau Meddaniedig Palesteina a Libanus yn ddiffygiol iawn.

Gallai cyfrifiad sy'n seiliedig ar boblogaeth Cymru o gymharu â gweddill y DU[2] ac yn seiliedig ar y 20,000 a allai ddod i'r DU yn ein barn ni, olygu y bydd 1,000 o bobl yn symud i Gymru yn 2023 o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus. Fodd bynnag, byddai angen addasu hyn er mwyn deall cyfran y bobl y mae angen tai neu gymorth tai arnynt wedyn. Bydd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cyrraedd Cymru o'r tiriogaethau yr effeithiwyd arnynt naill ai'n wladolion Prydeinig neu'n ddibynyddion iddynt – nid ffoaduriaid heb ganiatâd mewnfudo ymlaen llaw.

Dangosodd data Llywodraeth Cymru ar ganlyniadau digartrefedd ar gyfer 2020-21[3] fod 12,708 o bobl wedi cael cymorth ataliol, yn unol â dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sef 0.4% o boblogaeth Cymru. Er nad oes unrhyw arwydd bod y gyfran hon yn adlewyrchu'r angen am dai cymdeithasol a chymorth tai'r bobl sy'n cyrraedd Cymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus, dyma'r unig ddata sydd ar gael i'w ddefnyddio i amcangyfrif y niferoedd a allai fod angen cymorth. Wrth gymhwyso'r gyfran hon, gallwn asesu yr effeithir ar bum unigolyn. Gallai hyn fod cymaint â saith unigolyn pe bai 30,000 o unigolion yn dychwelyd i'r DU.

ationalmigration/datasets/populationoftheunitedkingdombycountryofbirthandnationalityunderlyingdatasheets/july2020tojune2021/underlyingdatasheetsforpopulationbycountryofbirthandnationalityjul20tojun21.xls

[2] Yn ôl data'r Cyfrifiad, roedd poblogaeth o 3,105,410 yng Nghymru yng nghanol 2021 sef 4.6% o boblogaeth y DU o 67,026,292. Caiff y ffigur hwn ei dalgrynnu i 5% at ddiben yr asesiad hwn.

[3] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd (llyw.cymru)

Er gwaethaf y rhagamcan isel hwn, mae'n bwysig nodi y gallai' rhai a ddaw i Gymru o wlad lle mae gwrthdaro fynd yn ddigartref. Bydd rhai yn cyrraedd, o bosibl wedi drysu ar ôl trawma gadael eu cartrefi, aelodau o'u teulu a'u rhwydweithiau cymorth, a gorfod ymgartrefi mewn lleoliadau ac o dan amgylchiadau anghyfarwydd. Mae'n bosibl hefyd na fydd ganddynt fawr ddim eiddo heblaw'r hyn a gludwyd mewn cesys dillad ac y bydd eu harian yn gyfyngedig i'w cynilion yn unig, ac yn llai o werth nag y mae yn y tiriogaethau yr effeithir arnynt, o ystyried y gwahaniaethau mewn incwm rhwng y gwledydd. Os bydd yr unigolion hynny wedi cael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau a theulu, efallai y byddant yn dibynnu ar fudd-daliadau ac mai ychydig fydd yn dod o hyd i gyflogaeth ar unwaith.  Hefyd, mae angen i ni ystyried nad oes gennym ffigurau hysbys ar hyn o bryd ar gyfer y Gwladolion Prydeinig hynny yn Nhiriogaethau Meddianedig Palesteina neu yn Libanus. O ganlyniad, rhoddir yr amcangyfrif achos gwaethaf o 15-20 o unigolion y bydd angen cymorth tai arnynt yn Nhabl 1 o gostau y gellir mynd iddynt.

Roedd amcangyfrifon yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cyfrifo costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau digartrefedd i ymgeiswyr ar gyfer y cyfnod 2015-16. Mae'r costau hyn wedi cael eu huwchraddio i adlewyrchu chwyddiant yn ystod y cyfnod ers hynny a chânt eu defnyddio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn i amcangyfrif y gost y gallai awdurdod lleol fynd iddi pe bai unrhyw un sy'n dod i Gymru yn gwneud cais am lety tai neu gymorth tai.

Byddai darparu gwasanaethau digartrefedd o'r fath yn golygu asesiad cychwynnol i'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn ddigartref nac yn anghymwys i gael cymorth. Tybir y bydd yr asesiad hwn yn costio £428.40 fesul ymgeisydd “anghymhwys” a £214.20 i unigolyn yr ystyrir “nad yw'n ddigartref”. Wrth gyflawni'r ddyletswydd atal fel y'i rhagnodwyd yn neddfwriaeth 2014, amcangyfrifir costau o £1,112 fesul ymgeisydd.

Mae dyletswydd i roi cymorth i leddfu digartrefedd i ymgeiswyr lle mae mesurau atal yn methu neu y tybir eu bod yn ddigartref adeg cysylltu. Tybir nad oes unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i leddfu digartrefedd i'r ymgeiswyr hynny sydd eisoes wedi mynd drwy'r ddyletswydd atal.

Mewn achosion lle nad yw'r ddyletswydd i leddfu digartrefedd yn llwyddiannus, bydd gan ymgeiswyr y gellir eu hystyried “yn gymwys, yn ddigartref, mewn angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol” ac y mae camau i leddfu digartrefedd wedi bod yn aflwyddiannus, yr hawl i ddyletswydd lawn am gost o £2,274 fesul ymgeisydd (£2,702.40 llai cost asesiad o £428.40). Dangosir costau amcangyfrifedig i awdurdodau lleol yn Nhabl 1.

Tabl 1: Cost amcangyfrifedig i awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau digartrefedd

| | 15 ymgeisydd | 20 ymgeisydd |
|---|---|---|
| £428.40 fesul ymgeisydd “anghymwys” | £6,426 | £8,568 |

| | | |
|---|---|---|
| £214.20 fel ymgeisydd yr ystyrir "nad yw'n ddigartref" | £3,213 | £4,284 |
| £1,112 fesul ymgeisydd sy'n gymwys i gael cymorth yn unol â'r ddyletswydd atal | £16,680 | £22,240 |
| £2,274 fesul ymgeisydd y gellir ei ystyried "yn gymwys, yn ddigartref, mewn angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol" | £34,110 | £45,480 |

Yn seiliedig ar amcangyfrifon cyffredinol a gyfrifir drwy adolygu data rheoli, mae awdurdodau lleol wedi nodi y byddai cost prosesu cais am lety tai yn amrywio o £400-£800. Ein tybiaeth yw y byddai gan gyfran fawr o'r rhai sy'n dod i Gymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus eu cartrefi eu hunain eisoes, gan mai gwladolion Prydeinig fydd llawer ohonynt. Ein hamcangyfrif achos gwaethaf yw y gall 10%-20% o'r 1,000 a all ddod i Gymru o bosibl ddewis gwneud cais am dai cymdeithasol. Gallai'r costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau o'r fath amrywio o £40,000 i £160,000.

Tabl 2: Costau amcangyfrifedig ceisiadau am dai cymdeithasol

| | Y gost isaf (£400) | Y gost uchaf (£800) |
|---|---|---|
| Angen 100 o gartrefi (10%) | £40,000 | £80,000 |
| Angen 200 o gartrefi (20%) | £80,000 | £160,000 |

Awdurdodau lleol fydd yn talu'r costau hyn.

Dylid ystyried y gost hon hefyd yn erbyn cyd-destun y cyflenwad tai sydd ar gael yng Nghymru, a'r galw presennol am dai cymdeithasol. Mae data cyfredol yn dangos bod mwy na 11,185 o bobl wedi'u lleoli mewn llety dros dro (ar 31 Awst)[4], gydag awdurdodau lleol hefyd yn ymateb i anghenion tai pobl sy'n cyrraedd y DU o gynlluniau cyrraedd/dychwelyd ar gyfer yr Wcráin, Afghan a Sudan. Nid oes gennym ddata ar gael i ddarparu cyfanswm y bobl neu'r cartrefi ar y rhestrau aros tai cymdeithasol, er mwyn amcangyfrif cyfanswm y galw am dai cymdeithasol. Bydd hyd arhosiad pobl o'r tiriogaethau yr effeithir arnynt, a'r amser a dreulir mewn llety, yn cynyddu'r cyfnodau amser hyn ymhellach.

Cydnabyddir y bydd unrhyw nifer o bobl sy'n cyrraedd o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, neu Libanus, sy'n gymwys i gael cymorth tai neu dai, yn gynnydd i alw sydd eisoes yn bodoli sy'n fwy na'r cyflenwad tai cymdeithasol. Mae'n debygol y bydd yn rhaid i bobl sy'n cyrraedd o'r tiriogaethau yr effeithir arnynt gael llety dros dro, cyn eu lleoli mewn llety sefydlog addas. Gall unrhyw alw cynyddol o'r fath arwain at fwy o gyfnodau aros i ymgeiswyr presennol o fewn llety dros dro, neu ymestyn y cyfnod o amser a dreulir ar restrau aros tai cymdeithasol.

[4] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Awst 2023 | LLYW.CYMRU

**Manteision**

Mae adran 4 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r cyfiawnhad dros wneud y Rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd estyn cymhwystra i gael tai a chymorth tai i bobl sy'n dod i Gymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan,  Libanus yn helpu i leihau'r risg o ddigartrefedd, a phe bai'n digwydd, sicrhau mai peth byrhoedlog, prin ac nad yw'n digwydd eto fyddai digartrefedd o'r fath. Bydd y mesur diogelu a gynigir gan y Rheoliadau yn helpu i amlygu enw da Cymru fel gwlad ddiogel a chroesawgar.

Mae manteision atal digartrefedd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gostau gwirioneddol, ychwanegol helpu pobl sy'n ddigartref, er enghraifft, cost llety dros dro iddynt. Bu nifer o astudiaethau[5][6][7][8] a oedd yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â rhoi cymorth tai, sy'n cydnabod yr arbedion sylweddol y gellid eu gwneud drwy ymyriad effeithiol. Gall gwasanaethau digartrefedd effeithiol gynnig manteision a all bara am oes rhywun. Maent yn cynnwys gwell iechyd a llesiant, datblygiad plant ac addysg, a galluogi oedolion i gymryd rhan yn y farchnad lafur a chyfrannu at allbwn economaidd. O ganlyniad, gellir lleihau'r pwysau ar rai gwasanaethau, gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol a'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol, er enghraifft. Dangoswyd bod y manteision yn fwy na'r costau, a hynny'n sylweddol mwy yn aml, yn enwedig o ystyried mai anaml y bydd rhywun sy'n ddigartref ar y stryd yn wynebu'r anfantais honno yn unig. Bydd llawer o unigolion hefyd yn profi effeithiau negyddol ar eu hiechyd meddwl ac, i nifer sylweddol, byddant yn camddefnyddio sylweddau hefyd. O gael y profiadau hynny am amser hir, bydd yn anos adfer, a bydd hynny'n gofyn am hyd yn oed mwy o gymorth a chostau. Yng ngoleuni amgylchiadau'r rhai sy'n dod i Gymru o Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus, a all fod wedi profi trawma, efallai y bydd yr angen i atal digartrefedd yn fwy acíwt nag angen y boblogaeth ehangach sy'n gymwys i gael tai cymdeithasol a chymorth tai.

Bydd manteision camau gweithredu effeithiol yn cyfrannu at gyflawni sawl un o Ddeddfau Llywodraeth Cymru, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

## 8. Asesu'r Gystadleuaeth

Ddim yn gymwys.

---

[5] At what cost? | Crisis UK | Together we will end homelessness

[6] Better than cure? | Crisis UK

[7] Hard-Edges-Mapping-SMD-2015.pdf (lankellychase.org.uk)

[8] assessing_the_costs_and_benefits_of_crisis-_plan_to_end_homelessness_2018.pdf

## 9. Adolygiad ôl-weithredu

Ddim yn gymwys.